Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Yn dod yn fuan – Codau Ymarfer Proffesiynol newydd

**O 1 Gorffennaf 2026, bydd angen i weithwyr a chyflogwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru ddilyn ein Codau Ymarfer Proffesiynol newydd.**



## Beth sydd wedi newid?

Rydyn ni wedi diweddaru ein Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr gofal cymdeithasol, a'n canllawiau ymarfer.

- Rydyn ni wedi gwneud y codau'n symlach ac yn haws i'w deall.
- Nid yw'r safonau ymarfer ac ymddygiad wedi newid.

## I bwy mae'r codau'n berthnasol?

- Os ydych chi wedi cofrestru â ni, mae'n **rhaid** i chi ddilyn y Cod i weithwyr.
- Dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru ddilyn y Cod i weithwyr, hyd yn oed os nad oes rhaid i chi gofrestru gyda ni.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Eich rôl fel gweithiwr gofal cymdeithasol

- **Parchu pawb** – trin pobl ag urddas a gwrando ar eu dewisiadau.
- **Cadw pobl yn ddiogel** – amddiffyn rhag niwed a helpu i reoli risgiau.
- **Bod yn onest** – gweithredu'n gyfrifol a gwneud yr hyn rydych chi'n dweud y byddwch chi'n ei wneud.
- **Parhau i ddysgu** – aros yn gyfredol â sgiliau a gwybodaeth.
- **Gweithredu'n broffesiynol** – bod yn ymwybodol o'ch ymddygiad a chynnal ymddiriedaeth yn eich rôl.
- **Perchnogi eich gweithredoedd** – cymryd cyfrifoldeb ac adrodd pryderon.

### Mwy o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i'r Codau Ymarfer Proffesiynol a chanllawiau ymarfer ar ein gwefan. Mae gennym ni hefyd adnoddau i'ch helpu i'w defnyddio.

Ewch i gofalcymdeithasol.cymru/codau neu sganiwch y cod QR.

